

Agenda – Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 5, Tŷ Hywel a	Sarah Beasley
fideogynadledda drwy Zoom	Clerc y Pwyllgor
Dyddiad: 8 Tachwedd 2023	0300 200 6565
Amser: 09.30	Seneddlechyd@senedd.cymru

Rhag-gyfarfod preifat (09:00 – 09:30)

- 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**
(09.30)
- 2 Sesiwn graffu gyffredinol gyda'r Gweinidog Iechyd a**
Gwasanaethau Cymdeithasol, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau
Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
(09.30–11.30) (Tudalennau 1 – 34)
Eluned Morgan AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Julie Morgan AS, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Lynne Neagle AS, y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant

Jeremy Griffith, Cyfarwyddwr Gweithrediadau – Llywodraeth Cymru
Hywel Jones, Cyfarwyddwr Cyllid, IGC – Llywodraeth Cymru
Albert Heaney, Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol – Llywodraeth Cymru
Alex Slade, Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol ac Iechyd Meddwl – Llywodraeth
Cymru
Irfon Rees, Cyfarwyddwr Iechyd a Lles – Llywodraeth Cymru

Briff Ymchwil
Papur 1 – Llywodraeth Cymru
- 3 Papurau i'w nodi**
(11.30)



- 3.1 Ymateb gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynghylch Confensiwn y DU–Norwy–Liechtenstein–Gwlad yr Iâ ar Gydgysylltu Nawdd Cymdeithasol**
(Tudalennau 35 – 36)
- 3.2 Llythyr at y Cadeirydd gan Anabledd Cymru ynghylch cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024–25**
(Tudalennau 37 – 39)
- 3.3 Llythyr at y Cadeirydd gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch adolygiad Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (ADSSC) o ofalwyr di-dâl**
(Tudalennau 40 – 42)
- 3.4 Llythyr gan Gymdeithas Cefnogi ME a CFS Cymru (WAMES) ynghylch y Cynllun Cyflawni ME/CFS a gynigir ar gyfer Cymru**
(Tudalennau 43 – 47)
- 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn**
(11.30)
- 5 Sesiwn graffu gyffredinol: trafod y dystiolaeth**
(11.30–11.45)
- 6 Amseroedd aros GIG Cymru – Adroddiad monitro tymhorol**
(11.45–12.00) (Tudalennau 48 – 62)
Papur 2 – Amseroedd aros GIG Cymru – Adroddiad monitro tymhorol
- 7 Canserau gynaeolegol: ystyried yr adroddiad drafft**
(12.00–12.30) (Tudalennau 63 – 160)
Papur 3 – adroddiad drafft

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eluned Morgan AS/MS

**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services**

Julie Morgan AS/MS

**Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services**

Lynne Neagle AS/MS

**Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
Deputy Minister for Mental Health & Wellbeing**



**Llywodraeth Cymru
Welsh Government**

Russell George AS

Cadeirydd

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Seneddlechyd@senedd.cymru

27 Hydref 2023

Annwyl Russell,

Gweler ein hymateb i'r materion penodol a godwyd gan yr Aelodau yn eich gohebiaeth ar 02 Hydref, cyn y Cyd-sesiwn graffu gyffredinol gan y Gweinidogion a drefnwyd ar gyfer 08 Tachwedd.

Yn gywir

Handwritten signature of Eluned Morgan in blue ink.

Eluned Morgan AS/MS
Y Gweinidog Iechyd a
Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social
Services

Handwritten signature of Julie Morgan in blue ink.

Julie Morgan AS/MS
Y Dirprwy Weinidog
Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social
Services

Handwritten signature of Lynne Neagle in blue ink.

Lynne Neagle AS/MS
Y Dirprwy Weinidog Iechyd
Meddwl a Llesiant
Deputy Minister for Mental
Health and Wellbeing

Ymateb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Gofal cymdeithasol

1. Diweddariad ar gynnydd o ran gwella recriwtio a chadw staff mewn gofal cymdeithasol, a mynd i'r afael â'r prinderau sylweddol. Unrhyw dystiolaeth bod y sefyllfa yn sefydlogi/gwella.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr heriau sylweddol o ran recriwtio a chadw yn y maes gofal cymdeithasol. Mae cyflogwyr gofal cymdeithasol yn cystadlu â'r sectorau manwerthu, lletygarwch ac eraill. Mae data ac arolygon o'r gweithlu yn atgyfnerthu pwysigrwydd ein blaenoriaethau ar gyfer y gweithlu i leihau nifer y swyddi gwag ym maes gofal cymdeithasol.

Ein rhaglenni gwaith, buddsoddi a'n gwaith gyda thargedau rhanddeiliaid sy'n cefnogi gweithlu gwydn a sefydlog. Credwn fod angen dull cyfannol a systematig. Fel Llywodraeth, rydym yn canolbwyntio ar greu sylfaen gadarn ar gyfer adeiladu ein gweithlu. Mae enghreifftiau o'r meysydd gwaith yn cynnwys:

- Ein buddsoddiad o £10 miliwn dros dair blynedd yn y fwsariaeth i weithwyr cymdeithasol i wneud y radd gwaith cymdeithasol yn gyraeddadwy yn ariannol, ac i'w gwneud yn yrfa ddeniadol. Rydym yn hyderus bod y cynnig o fwy o gymorth yn helpu i ddenu mwy o fyfyrwyr i ymgymryd â gwaith cymdeithasol fel gyrfa.
- Mae ein cyllid drwy Ofal Cymdeithasol Cymru yn cefnogi cynlluniau 'datblygu eich rhai eich hunain' yr awdurdodau lleol sy'n cefnogi cyflogaeth â thâl a hyfforddiant gwaith cymdeithasol wedi'i ariannu. Mae hyn hefyd wedi arwain at gynnydd yn y nifer sy'n cymryd rhan.
- Ar hyn o bryd mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn arwain gwaith sy'n canolbwyntio ar delerau ac amodau i weithwyr cymdeithasol, gan gynnwys edrych ar ddulliau cenedlaethol. Diben hyn yw cefnogi a denu unigolion i'r proffesiwn, ond hefyd i leihau nifer y staff cymwys sy'n symud rhwng awdurdodau lleol oherwydd amrywiadau mewn telerau ac amodau.
- Fel Llywodraeth, rydym wedi dangos ein hymrwymiad i wella cyflogau drwy fuddsoddi £70 miliwn pellach yn y flwyddyn ariannol hon i sicrhau bod pob gweithiwr gofal cymdeithasol yn parhau i gael o leiaf y Cyflog Byw Gwirioneddol.
- Mae'r Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol yn gweithio mewn partneriaeth i wella telerau ac amodau i weithwyr gofal cymdeithasol gan roi gwell cyfleoedd ar gyfer dilyniant gyrfa.
- Rydym yn parhau i fuddsoddi yn ymgyrch recriwtio genedlaethol Gofal Cymdeithasol Cymru, Gofalwn.Cymru, sy'n hyrwyddo'r amrywiaeth o rolau sydd ar gael ym maes gofal cymdeithasol trwy ddeunyddiau ar y we a

hysbysebion teledu. Mae hyn yn cael effaith wirioneddol o ran nifer y bobl sy'n edrych ar y deunyddiau hyn am waith gofal cymdeithasol a sicrhau bod pobl yn teimlo'n fwy cadarnhaol am weithio yn y sector.

Daw'r buddsoddiadau cadarnhaol a'r rhaglenni gwaith hyn gyda'r ddealltwriaeth y bydd yn cymryd amser i deimlo effaith y rhaglenni. Er enghraifft, gall hyfforddiant gwaith cymdeithasol gymryd rhwng 2-6 blynedd, ond mae hyn yn argoeli'n dda ar gyfer y dyfodol.

Mae gwaith yn cael ei wneud i adolygu'r sefyllfa'n ymwneud â swyddi gwag dros y gaeaf ar lefel ranbarthol gan fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol.

Mae cynnydd wedi'i wneud yn dilyn cyhoeddi'r Datganiad o Fwriad ynghylch Meithrin Gallu drwy Ofal Cymunedol – Ymhellach, Yn Gyflymach ym mis Mehefin, fel ymdrech benodol sy'n gweithio gyda byrddau iechyd ac awdurdodau lleol i sicrhau capasiti ychwanegol yn y system y gaeaf hwn. Ers hynny rydym wedi ailsefydlu'r Pwyllgor Gweithredu Gofal, sy'n cynnwys llywodraeth leol a'r GIG. Byddwn yn gweithio i hybu'r gweithlu gofal cymunedol, er enghraifft nyrsys cymunedol a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd. Cynhaliwyd cyfarfod o'r Pwyllgor Gweithredu Gofal ym mis Medi a mis Hydref, a bydd yn parhau i gyfarfod yn fisol drwy gydol y gaeaf.

Rydym wedi gweld mwy nag y gwnaethom amcangyfrif yn wreiddiol yn cofrestru gyda rheoleiddiwr y gweithlu, ac mae'r niferoedd hyn yn parhau i gynyddu. Mae hyn yn dangos bod pobl yn dal i ymuno â'r sector. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol bod y sefyllfa'n anwadal o hyd, ac rydym yn parhau i weithio gyda'n partneriaid i fonitro'r sefyllfa hon.

Mae Strategaeth y Gweithlu a gyhoeddwyd yn 2020, yn nodi ein gweledigaeth a'n camau gweithredu ar gyfer y tymor hir mewn perthynas â'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru bellach yn datblygu Cynllun Cyflawni Strategaeth y Gweithlu gan adeiladu ar y cynnydd a wnaed hyd yma ac mae ymgysylltu â'r sector wedi bod yn ganolog i ddatblygiadau. Bydd y cynllun yn disgrifio'r camau gweithredu allweddol a fydd yn helpu i ddatblygu'r gweithlu gofal cymdeithasol dros y tair blynedd nesaf.

2. Diweddariad ar gynnydd y Fforwm Gwaith Teg ac amserlen wedi'i diweddarau ar gyfer camau gweithredu allweddol, gan gynnwys unrhyw waith ar dâl salwch.

Mewn ymateb i'r argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol o'r enw *Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24*, ysgrifennodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol at Gadeirydd y Pwyllgor ym mis Mehefin yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith y Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol. Roedd hyn yn cynnwys dolen i [adroddiad cynnydd blynyddol](#) y Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2023 a oedd hefyd yn nodi blaenoriaethau'r Fforwm ar gyfer 2023. Cafwyd diweddariad pellach yn yr haf fel rhan o Ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar Ryddhau o Ysbytai a'i Effaith ar Lif Cleifion Drwy'r Ysbyty.

Fframwaith Tâl a Dilyniant

Roedd y diweddariadau yn cyfeirio at ddatblygu Fframwaith Tâl a Dilyniant drafft ar gyfer y sector gofal cymdeithasol sydd wedi'i ddatblygu mewn partneriaeth gan is-grŵp o'r Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol. Nod y Fframwaith drafft yw darparu cyfleoedd tâl, cynnydd a datblygiad mwy cyson drwy nodi bandiau eang o rolau o fewn gofal cymdeithasol a fydd yn gydnaws â sgiliau, profiad dysgu a lefelau tâl.

Ymgynghorwyd ar y Fframwaith drafft yn ystod yr haf, fel rhan o ymgynghoriad ehangach Llywodraeth Cymru ar y Rhaglen Ailgydbwyso Gofal a Chymorth. Mae'r ymatebion yn cael eu hadolygu a bydd y canlyniad yn cael ei gyhoeddi maes o law. Mae gweithdy wedi'i drefnu yn yr hydref i'r Fforwm ystyried yr ymateb i'r ymgynghoriad ar y Fframwaith a chytuno ar y camau nesaf wrth symud ymlaen.

Cyngor Partneriaeth y Gweithlu Gofal Cymdeithasol

Mae'r Fforwm hefyd yn bwrw ymlaen â'r gwaith o ddatblygu model unigryw ar ffurf 'Cyngor Partneriaeth y Gweithlu Gofal Cymdeithasol' ar gyfer y sector gofal cymdeithasol annibynnol yng Nghymru. Erbyn yr hydref, bydd y Fforwm wedi cytuno ac wedi sefydlu ei egwyddorion a'i weledigaeth eang ar gyfer gweithio mewn partneriaeth a bydd wedi darparu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer aelodaeth wirfoddol. Yna bydd yn ymgysylltu â'r sector cyn sefydlu dull graddol o weithredu a phrofi trefniant partneriaeth wirfoddol ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Nod cyffredinol y bartneriaeth hon yw cytuno ar isafswm set o ddisgwyliadau cyflogaeth ar gyfer staff sy'n gweithio yn y sector gofal cymdeithasol annibynnol, a bydd y rhain yn cael eu mabwysiadu yn wirfoddol gan gyflogwyr. Uchelgais tymor hwy y Cyngor Partneriaeth yw ymgorffori gwaith teg yn y sector gofal cymdeithasol a mabwysiadu'r disgwyliadau gofynnol y bydd yn cytuno arnynt fel safonau gofynnol ar gyfer yr holl staff o fewn cwmplas y sector gofal cymdeithasol.

Mae swyddogion yn parhau i weithio mewn partneriaeth gymdeithasol gyda'r Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol i archwilio argymhellion a wnaed gan y Fforwm i'r Gweinidogion yn gynharach yn y flwyddyn ar gamau tymor byr, tymor canolig a hir dymor ar dâl salwch, gan gynnwys gwaith i wella gwasanaethau cofleidiol mewn meysydd megis llesiant a chymorth menopos, sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd.

3. Gwybodaeth am gynlluniau ar gyfer cymorth pellach i ofalwyr di-dâl (y tu hwnt i gynlluniau presennol).

Argymhellodd y pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru adolygu sut mae hawliau gofalwyr di-dâl yn cael eu hategu yn ei hadroddiad ym mis Mehefin 2022 ar ryddhau cleifion o'r ysbyty a'r effaith ar lif cleifion drwy ysbytai. Comisiynwyd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (ADSSC) i gynnal adolygiad cyflym o sut y cadarnhawyd hawliau gofalwyr di-dâl yn ystod ac ar ôl yr ymateb i Covid-19. Cafodd yr adolygiad ei dderbyn ym mis Mehefin 2023.

Roedd canfyddiadau'r adroddiad yn canolbwyntio ar yr angen am fwy o gydnabyddiaeth i ofalwyr a'i gwneud yn haws i adnabod gofalwyr, gwella gwybodaeth am asesiadau anghenion gofalwyr a hawliau gofalwyr yn fwy cyffredinol, a gwella'r mynediad at y rhain. Roedd yr adroddiad hefyd yn tynnu sylw at effaith costau byw ar ofalwyr, sy'n fwy tebygol o orfod byw ar gyllidebau is yn eu haelwydydd.

Anerchodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Ofalwyr Di-dâl ar 25 Medi a gofynnodd am gael sefydlu gweithgor i fapio canfyddiadau'r adolygiad yn erbyn ein Strategaeth Gofalwyr presennol a'n Cynllun Cyflawni. Er ei bod yn ymddangos bod y canfyddiadau'n cael sylw ym mhedair nod strategol y cynllun presennol, rydym am ddefnyddio'r adolygiad cyflym i adnewyddu ac ailffocysu ein dull.

Mae mynediad at asesiadau anghenion gofalwyr a chynlluniau cymorth wedi'i godi fel maes i'w wella ers sefydlu'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Rydym am weithio gydag awdurdodau lleol a sefydliadau gofalwyr i gydnabod y rhwystrau ar draws Cymru a rhannu arferion da i sicrhau newid cadarnhaol.

Rydym yn adolygu ein dulliau o sicrhau mwy o gydnabyddiaeth i ofalwyr, a'r gallu i ofalwyr hunanadnabod wrth ymwneud â'r sefydliadau gofalwyr sy'n cyflawni llawer o'r gweithgarwch hwn. Rydym yn parhau i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r Siarter ar gyfer Gofalwyr Di-dâl, sy'n amlinellu eu hawliau o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

Mae'r rhaglenni cenedlaethol presennol i gynyddu'r ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol integredig yn y gymuned yn rhoi cyfleoedd am fwy o gydnabyddiaeth broffesiynol i rôl gofalwyr di-dâl yn y gwaith o asesu a chynllunio gofal ar gyfer yr unigolyn sy'n derbyn gwasanaethau. Rydym yn sicrhau bod gofalwyr di-dâl yn cael eu henwi fel unigolion allweddol yn y dogfennau gwaith ar gyfer y rhaglenni hyn.

4. Diweddariad ar y datblygiadau diweddaraf a'r camau nesaf gyda'r gwasanaeth gofal cenedlaethol, gan gynnwys a oes ymchwil wedi'i gomisiynu ar dalu am ofal (a grybwyllwyd yn y Cyfarfod Llawn ym mis Mehefin), a chadarnhad a fydd cynllun gweithredu'n cael ei gyhoeddi ar ddiwedd y flwyddyn.

Rhaglen Ailgydbwysu Gofal a Chymorth

Roedd y Papur Gwyn Ailgydbwysu Gofal a Chymorth a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2021 yn nodi amryw o heriau parhaus sy'n wynebu gofal cymdeithasol yng Nghymru. Fel cam nesaf sy'n deillio o'r papur gwyn hwnnw, lansiwyd ymgynghoriad ffurfiol ar 22 Mai 2023 ar y canlynol -

- Datblygu Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth a fydd yn God Ymarfer statudol
- Creu Swyddfa Genedlaethol ar gyfer Gofal a Chymorth o fewn y Llywodraeth
- Cryfhau gwaith Partneriaeth Rhanbarthol ac integreiddio gwasanaethau
- Cod Ymarfer wedi'i ddiweddarau o dan Ran 8 o Ddeddf 2014 sy'n ymwneud â rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, a
- Fframwaith Tâl a Dilyniant Drafft a ddatblygwyd gan y Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol.

Daeth yr ymgynghoriad helaeth hwnnw i ben ar 14 Awst. Mae dadansoddiad manwl yn parhau ar y 90+ o ymatebion a ddaeth i law i'r ymgynghoriad. Bwriedir i'r adroddiad sy'n crynhoi'r ymatebion gael ei gyhoeddi ar ddiwedd mis Tachwedd.

Dylid nodi fodd bynnag, bod angen ystyried unrhyw uchelgeisiau yn ymwneud â gofal o fewn yr amgylchedd ariannol heriol iawn sydd ohoni.

Adroddiad Grŵp Arbenigol y Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol – Tuag at Wasanaeth Gofal Cenedlaethol

Lluniodd y Grŵp Arbenigol adroddiad terfynol trylwyr a manwl gyda 46 o argymhellion pellgyrhaeddol ynghylch sut y gellid datblygu gwasanaeth gofal cenedlaethol gyda nifer o'r argymhellion hynny'n cyd-fynd â'r agenda ar gyfer diwygio'r sector cymdeithasol. Er enghraifft, mae'r adroddiad annibynnol yn cefnogi'r newidiadau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cyflwyno drwy'r Papur Gwyn ar Ail-gydbwysu Gofal a Chymorth, a gwaith y Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol.

Mae'r argymhellion hyn yn cael eu hystyried yn drylwyr, yn enwedig yn y cyd-destun economaidd hynod heriol sydd ohoni bellach ers i'r gwaith hwn ddechrau.

Ar hyn o bryd, mae Gweinidogion, Aelod Dynodedig Plaid Cymru a Swyddogion wrthi'n cwblhau'r gwaith o ddatblygu Cynllun Gweithredu Cychwynol sy'n cynnwys dull tri cham, gan gynnwys y prosiectau ymchwil megis talu am amser gofal. Gwneir datganiad pellach a chyhoeddir y cynllun ar ddiwedd mis Tachwedd.

Iechyd

5. Disgwyliadau'r Gweinidog o ran sut y bydd y contractau diwygiedig ar gyfer meddygon teulu, deintyddion a fferyllwyr yn gwella mynediad at feddygon teulu, a gweithwyr gofal sylfaenol proffesiynol eraill i bobl ledled Cymru.

Roedd cam cyntaf Safonau Mynediad y Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (GMS), a weithredwyd ar 1 Ebrill 2023, yn canolbwyntio ar systemau a phrosesau a fyddai'n ei gwneud hi'n haws i gleifion gysylltu â'u meddygfa, a daeth yn orfodol ar gyfer pob practis trwy gontract y GMS, gan sicrhau cysondeb ledled Cymru. Mae practisau'n edrych i'r dyfodol ac yn cynllunio ar gyfer rheoli anghenion cleifion, gan fynd i'r afael â'r dagfa am 8 o'r gloch y bore y gwyddom sydd wedi bod yn broblem barhaus. Mae'r Ymrwymiad Mynediad yn ei gwneud yn ofynnol i feddygfeydd fabwysiadu'r model cyfunol ar gyfer mynediad, gan gynnig cymysgedd o apwyntiadau o bell, apwyntiadau wyneb yn wyneb, apwyntiadau brys, apwyntiadau ar-y-dydd ac apwyntiadau y gellir eu harchebu ymlaen llaw, gyda phobl yn gallu cysylltu â'u practis ar unrhyw adeg o'r dydd i wneud apwyntiad. Bydd y £5m o gyllid a roddwyd yn ddiweddar ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd yn cynyddu'r cymorth sydd ar gael i feddygon teulu drwy dimau adnoddau cymunedol.

Ar gyfer deintyddiaeth a diwygio contractau, 2023/24 yw'r ail flwyddyn lawn lle mae'r rhan fwyaf o bractisau wedi dewis gweithio o dan drefniadau diwygio'r contract deintyddol. Mae'r cynnig diwygiedig wedi symud practisau i ffwrdd o'r contract UDA nad oedd pobl yn hoff ohono, a oedd yn annog gweithgarwch, i system sy'n canolbwyntio ar atal a darparu triniaeth ar sail risg ac anghenion.

Mae'r cynnig diwygio yn annog practisau i weld cleifion newydd. Ers mis Ebrill 2022 mae bron i 244,000 o gleifion sydd wedi cael trafferth cael mynediad at driniaeth yn hanesyddol wedi cael cwrs o driniaeth. Mae 30,000 yn rhagor wedi cael gofal brys yn y flwyddyn bresennol.

Ym mis Hydref bydd diwygiadau arloesol eang newydd yn cael eu cyflwyno ym maes optometreg. Bydd hyn yn gwella mynediad at driniaeth, cyngor a gofal ar y cyd rhwng gofal sylfaenol a gofal eilaidd ymhellach. Y nod cyffredinol yw darparu gwasanaethau â ffocws clinigol sy'n gwneud diagnosis, yn rheoli ac yn trin mwy o bobl yn nes at y cartref. Mae'r gwaith o ddiwygio gwasanaethau awdioleg yn parhau gyda'r un ffocws ar ddarparu gwasanaethau yn nes at y cartref. Mae nifer yr archwiliadau a gynhelir drwy wasanaethau awdioleg mynediad uniongyrchol yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn; fodd bynnag, mae angen gwneud mwy o hyd i gyflwyno mynediad uniongyrchol at Ymarferwyr Awdioleg Uwch ym mhob Clwstwr gofal sylfaenol ar draws Cymru.

Ers mis Ebrill 2022 mae 'Presgripsiwn Newydd - A New Prescription' wedi arwain at ddiwygiadau eang i ddarpariaeth gwasanaethau fferylliaeth gymunedol. Mae hyn yn cynnwys y cynllun anhwylderau cyffredin yr amcangyfrifir sydd eisoes wedi arbed tua 200,000 o apwyntiadau meddyg teulu rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mawrth 2023. Yn ogystal, mae fferyllfeydd cymunedol yn darparu brechiadau fflw tymhorol, a chyflenwadau brys o bresgripsiynau rheolaidd.

6. Diweddariad ar raglenni brechu a'r nifer sy'n eu defnyddio, gan gynnwys brechiadau arferol yn ystod plentynod yn ogystal â brechiadau tymhorol COVID-19 a'r fflw.

Pwysigrwydd brechu

Mae brechu yn rhan hanfodol o ddarpariaeth GIG Cymru i amddiffyn ein dinasyddion a'n cymunedau ac mae ganddo rôl bwysig o ran atal ac ymateb i glefydau difrifol, gan leihau'r pwysau ar y GIG, gofal cymdeithasol a gwasanaethau cyhoeddus eraill. Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn amcangyfrif bod brechu yn arbed hyd at 3 miliwn o farwolaethau o amgylch y byd bob blwyddyn.

Rôl y Cydbwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu

Mae'r Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu (JCVI) yn bwyllgor cyngori arbenigol annibynnol sy'n cyngori adrannau iechyd y Deyrnas Unedig ynglŷn ag imiwneiddio, gan wneud argymhellion ynghylch amserlenni brechu a diogelwch brechlynnau.

Rhaglen Frechu'r Gaeaf yn erbyn Feirysau Anadlol

Mae Rhaglen Frechu'r Gaeaf yn erbyn Feirysau Anadlol yn nodi cynllun Llywodraeth Cymru i amddiffyn y rhai sydd fwyaf agored i niwed o ganlyniad i COVID-19 a'r fflw yn ystod yr hydref a'r gaeaf 2023-24. Rhagorwyd ar y targed o sicrhau bod 75% o'r rhai 65 oed a hŷn yn manteisio ar frechlyn COVID-19 a'r fflw dros y tair blynedd diwethaf. Dyma yw uchelgais Rhaglen Frechu'r Gaeaf yn erbyn Feirysau Anadlol o hyd ar gyfer 2023/24.

COVID-19

Fel erioed, prif nod rhaglen frechu COVID-19 yw hybu imiwneidd yn y rhai sy'n wynebu risg uwch o ganlyniad i COVID-19 a gwella amddiffyniad rhag salwch difrifol, mynd i'r ysbyty a marwolaeth.

Yn y [cyngor diweddaraf](#) gan y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu, argymhellwyd y dylid cynnig dos sengl o'r brechlyn COVID-19 i bob oedolyn sydd dros 65 mlwydd oed, yn ogystal â phreswylwyr mewn cartrefi gofal i oedolion hŷn, gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol rheng flaen, y rhai sy'n agored i niwed yn glinigol rhwng chwe mis oed a 64 mlwydd oed, gofalwyr a'r rhai sy'n byw gyda phobl sydd â system imiwnedd gwan (fel y'i diffinnir gan y [llyfr gwyrdd](#)). Mae hyn yn golygu bod y trothwy oedran ar gyfer brechiad atgyfnerthu COVID-19 yr hydref bellach yn cyd-fynd â'r cymhwysedd ar gyfer cael brechiad fflw yn 2023. Mae'r Cyd-bwyllgor wedi [cyngori](#) hefyd y dylid defnyddio'r brechlyn deufalent cymeradwy Omicron BA4-5 mRNA a'r brechlyn unfalent XBB ar gyfer rhaglen yr hydref.

Dechreuodd rhaglen atgyfnerthu COVID-19 yr hydref ar 11 Medi gyda'r brechlyn BA.4.5 yn cael ei flaenoriaethu ar gyfer y carfannau mwyaf agored i niwed, gan gynnwys y rhai mewn cartrefi gofal, cyn newid i'r brechlyn XBB ar 2 Hydref pan ddaeth y cyflenwad ar gael. Mae'r rhaglen nawr yn cael ei chyflwyno i bob grŵp cymwys.

Mae'r data brechu diweddaraf yn dangos bod timau brechu wedi ymweld â phob cartref gofal yng Nghymru a bod mwy na 75% o'r preswylwyr wedi cael eu brechiad atgyfnerthu COVID-19. Mae dros 45%¹ o'r garfan 65+ wedi cael cynnig brechlyn. Mae byrddau iechyd yn dweud eu bod ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed (a osodwyd gan Lywodraeth Cymru) o wahodd pawb sy'n gymwys erbyn diwedd mis Tachwedd.

Y Fflw

Brechu rhag y fflw yw un o'r ymyriadau iechyd y cyhoedd mwyaf effeithiol i amddiffyn pobl rhag heintiau a lleihau'r pwysau ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol dros gyfnod prysur y gaeaf.

Mae'r grwpiau sy'n gymwys i gael brechlyn fflw fel rhan o'r rhaglen frechu genedlaethol arferol rhag y fflw yn 2023-24 wedi'u hamlinellu yn y [cylchlythyr iechyd](#) a anfonwyd at GIG Cymru.

Mae disgwyl i ddata ar y nifer sydd wedi manteisio ar y brechlyn fod ar gael erbyn diwedd mis Hydref. Ein nod yw y bydd cyfraddau derbyn yn well ar gyfer pob grŵp cymwys yn 2023-24 drwy gydol y rhaglen ond yn arbennig yn ystod y brif ffenestr

¹*Bydd y ffigur hwn yn is na'r gwir ganran gan nad yw practisau meddyg teulu bob amser yn mewnbynnu'r data cynnig yn brydlon. Pan fo byrddau iechyd yn dibynnu'n helaeth ar ddarpariaeth gan feddygon teulu, mae'r ffigur hwn yn debygol o fod yn sylweddol is na'r gwir ffigur, sy'n effeithio'n negyddol ar y ganran gyffredinol ar gyfer Cymru.

frechu, rhwng mis Medi a mis Rhagfyr, er mwyn sicrhau'r amddiffyniad mwyaf posibl cyn brig tymor y fflw a ddisgwylir ar droad y flwyddyn.

Imiwneiddio mewn plentyndod

Estynnir gwahoddiad i blant a phobl ifanc gael eu himiwneiddiadau plentyndod arferol ar gyfnodau penodol o'u datblygiad, gan ddechrau yn 8 wythnos oed hyd at 13-14 oed (blwyddyn 9 yn yr ysgol). Ceir crynodeb o'r imiwneiddiadau arferol yn yr [amserlen imiwneiddio rheolaidd](#).

Mae gan GIG Cymru darged i sicrhau bod 95% o blant yn cael y brechiadau a drefnwyd erbyn eu bod yn 5 oed (y brechlyn atgyfnerthu '4 mewn 1' cyn mynd i'r ysgol, y brechlyn atgyfnerthu Hib/MenC a'r ail ddos MMR) yn unol ag argymhellion Sefydliad Iechyd y Byd.

Fis Awst diwethaf, yn dilyn yr achosion o polio yn Llundain, ac mewn ymateb i gyngor y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu, rhoddodd Prif Swyddog Meddygol Cymru gyfarwyddyd i GIG Cymru ddechrau rhaglen imiwneiddio wedi'i thargedu, gan ganolbwyntio ar Polio, ond gyda'r bwriad o gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar frechlynnau eraill yn ystod plentyndod fel yr un MMR, a'r pigiad 6-mewn-1. O ganlyniad i'r rhaglen hon, cafodd dros 3,500 o blant ychwanegol amddiffyniad rhag pob salwch plentyndod (cafodd dros 1,500 o blant frechlyn polio), gyda chanran uchel o'r plant hyn yn cael eu brechu yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig gan sicrhau mwy o gydraddoldeb wrth frechu.

Dangosodd [data](#) Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2023 fod y nifer sy'n manteisio ar imiwneiddiadau ar gyfer babanod yn parhau'n sefydlog ar y cyfan. Bu rhywfaint o gynnydd yn y nifer a fanteisiodd ar y cwrs tri dos llawn o'r pigiad '6 mewn 1' a'r cwrs dau ddos o'r brechlyn MenB erbyn y pen-blwydd cyntaf ond mae'n parhau ychydig yn is na 95%. Mae'r nifer sydd wedi manteisio ar y brechlyn PCV ar gyfer babanod yn parhau i fod yn uwch na 96.3%.

Roedd cyfran y plant a oedd wedi cael eu himiwneiddiadau rheolaidd i gyd erbyn eu bod yn bump oed yn 87.9% yn y chwarter hwn.

Mae timau brechu yn gwneud ymdrechion sylweddol i adfer a chynyddu'r nifer sy'n manteisio ar frechlynnau i'r lefelau cyn y pandemig, gan gydweithio â phartneriaid i roi brechlynnau i'r plant hynny sy'n dal i fod heb eu brechu a hyrwyddo pwysigrwydd brechu i rieni. Mae'n bwysig cydnabod bod ein cyfraddau derbyn yng Nghymru yn dal i fod yn uchel iawn ac yn cymharu'n ffafriol â gweddill y DU a gwledydd eraill yn fyd-eang.

Feirws Papiloma Dynol (HPV)

Mae'r brechlyn HPV yn amddiffyn rhag canser y pen a'r gwddf, yn ogystal â chanser ceg y groth. Roedd cyngor y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu a gyhoeddwyd ar 5 Awst 2022 yn argymhell y dylid newid yr amserlen frechu ar gyfer HPV o ddau ddos i un dos ar gyfer pobl ifanc a dynion o dan 25 oed sy'n cael rhyw â dynion eraill. Gwelodd y Pwyllgor dystiolaeth gref a oedd yn dangos fod un dos o'r brechlyn HPV yn rhoi amddiffyniad da a hirhoedlog pan gaiff ei gynnig ar ddechrau'r glasod.

Digwyddodd y newid hwn ar 1 Medi 2023 a bydd yn cael ei roi ar waith gan y tîm nyrso ysgolion drwy gydol y flwyddyn academaidd hon.

Mae astudiaethau wedi dangos gostyngiad o bron i 90% mewn achosion canser ceg y groth ymhlith grwpiau sydd wedi'u brechu, ac mae'n enghraifft ddefnyddiol o sut mae buddsoddi ymlaen llaw mewn rhaglen frechu ataliol nid yn unig yn achub bywydau'r menywod ifanc hynny, ond hefyd yn arbed yr holl gostau i'r gwasanaeth iechyd o ddelio â chanlyniad eu salwch.

Mae'r data ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2023 yn dangos bod 69.1% o bobl ifanc wedi cael y dos cyntaf o'r brechlyn firws papiloma dynol (HPV) erbyn blwyddyn 9 yn yr ysgol (14 oed), a 70.8% wedi manteisio ar y cwrs dau ddos llawn erbyn blwyddyn 10 yn yr ysgol (15 oed) ([adroddiad COVER blynyddol 2022/3](#)). O'r holl frechiadau a roddir i bobl ifanc yn eu harddegau, y nifer sy'n manteisio ar y brechlyn HPV sydd wedi'i effeithio fwyaf o hyd gan y mesurau hunan-ynysu o ganlyniad i bandemig COVID-19). Mae'r data yn gywir ar ddiwedd mis Mawrth ar gyfer pob blwyddyn academiaidd. Mae'r ffigurau terfynol yn debygol o fod yn uwch ar gyfer pob carfan wrth i gynigion brechu barhau drwy gydol y flwyddyn academiaidd.

Yr Eryr

Gall yr eryr achosi salwch difrifol, yn enwedig ymhlith pobl hŷn. Gall un o bob mil o achosion fod yn angheuol. Drwy frechu pobl i'w hatal rhag dal y feirws, rydym yn amddiffyn unigolion ac yn diogelu'r gwasanaeth iechyd. Mae data ym mis Chwefror 2023 yn dangos bod 56% o bobl 70–79 oed wedi cael eu brechu yng Nghymru.

O 1 Medi 2023, ehangwyd y carfannau sy'n gymwys i gael brechiad yn erbyn yr eryr, yn unol â chynghor y Cyd-bwyllgor, i sicrhau bod unigolion yn cael amddiffyniad yn ei erbyn o oedran cynharach. Bydd pob unigolyn sy'n gymwys am y tro cyntaf yn cael cynnig dau ddos o'r brechlyn anweithredol rhag yr eryr, sef Shingrix®, yn hytrach nag un dos o Zostavax.

Dywedodd y Pwyllgor y dylid gweithredu'r rhaglen fesul cam, gan ddechrau drwy gynnig y brechlyn i unigolion 65 a 70 oed. Mae hyn yn golygu, o fis Medi, y bydd y rhai sy'n troi'n 65 a 70 oed yn cael cynnig y brechlyn Shingrix, gyda'r cynnig presennol yn parhau i fod ar gael i'r rhai rhwng 70 a 79 oed. Dyma'r polisi ar draws holl wledydd y DU. Cyhoeddwyd [canllawiau](#) i GIG Cymru gydag esboniad o sut y bydd y newidiadau'n cael eu cyflwyno.

Brech M

Brech M (Mpox yn Saesneg) yw'r term newydd a ffefrir gan Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer yr hyn a elwid gynt yn Frech y Mwncïod. Gweithredwyd ymateb brys ym mis Mai 2022 i ddelio â'r achosion cychwynnol, ac yna cyhoeddwyd [Strategaeth y DU](#) ar gyfer rheoli Brech M, a gytunwyd gan holl asiantaethau iechyd y cyhoedd y DU. Cyhoeddodd Cymru ei model cyflawni diwygiedig ar [31 Mawrth i sicrhau y bydd pob unigolyn cymwys yn cael cynnig dau ddos o'r brechlyn \(cwrs sylfaenol\)](#).

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw gynlluniau i roi'r gorau i gynnig y brechlyn Brech M yng Nghymru, gyda GIG Cymru yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid allweddol i sicrhau bod gohebiaeth wedi'i thargedu yn cyrraedd pawb sy'n gymwys i gael eu brechu.

Ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Gorffennaf 2022 a 30 Mehefin 2023, mae data a geir o'r Cynllun Gwylidwriaeth Iechyd Rhywiol yng Nghymru yn amcangyfrif bod 69.1% o'r rhai sy'n gymwys wedi cael 1 dos o'r brechlyn Brech M, a bod 4.3% wedi cael 2 ddos. Gall y ffigurau hyn newid ar ôl cyflwyno rhagor o ddata.

Ers yr ymateb cychwynnol i achosion, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi bod yn ystyried sefydlu system wylidwriaeth fwy cadarn ar gyfer y tymor hir, er y bydd llawer yn dibynnu ar gynghor y Cyd-bwyllgor ar Imiweiddio a Brechu mewn perthynas â dyfodol y rhaglen frechu Brech M. Disgwylir i'r cynghor hwn ddod i law yn y dyfodol agos.

Y Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol

Cyhoeddwyd [Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol Cymru](#) ym mis Hydref 2022 i gefnogi'r gwaith o gyflawni canlyniadau sy'n arwain y byd mewn clefydau y gellir eu hatal drwy frechu. Ein ffocws yw cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar y brechlyn a dileu annhegwch, er mwyn sicrhau bod pob dinesydd yn cael y buddion diogelu iechyd a ddarperir gan ein rhaglenni brechu. Disgwylir i'r nesaf yn y gyfres o adroddiadau cynnydd ar weithredu'r Fframwaith gael ei gyhoeddi cyn diwedd y flwyddyn hon.

7. Diweddariad ar gynaliadwyedd y gweithlu, gan gynnwys camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â phwysau uniongyrchol; gwella cyfraddau cadw staff a llesiant staff, a recriwtio/datblygu'r gweithlu sydd ei angen i ddiwallu anghenion iechyd a gofal yn y dyfodol.

Cynaliadwyedd y gweithlu mamolaeth a newydd-anedig

Rydym wedi cyflwyno proses symleiddio optio i mewn er mwyn paru graddedigion bydwreigiaeth o brifysgolion Cymru i swyddi priodol ar gyfer bydwreagedd newydd gymhwyso ar draws Cymru. Mae'r dull hwn wedi helpu i sicrhau gwaith cynllunio teg a chynaliadwy ar gyfer y dyfodol i lenwi swyddi gwag ar draws pob bwrdd iechyd. Ers 2017, mae lleoedd hyfforddi ar gyfer bydwreigiaeth wedi cynyddu 41.8% yng Nghymru (o 134 i 190). Yn ogystal, mae gennym bellach ddau sefydliad addysg uwch sydd wedi'u comisiynu i dderbyn myfyrwyr ddwywaith y flwyddyn. Bydd hyn yn cynorthwyo gyda'r amrywiadau sy'n cael ei brofi ar hyn o bryd o ran y bydwreagedd newydd gymhwyso sydd ar gael i'w recriwtio, gydag un criw academiaidd yn cael ei dderbyn bob blwyddyn.

Yn ddiweddar comisiynwyd Birthrate® Plus (offeryn a gydnabyddir gan NICE ar gyfer sicrhau staffio diogel o fewn gwasanaethau mamolaeth) i gynnal adolygiad o nifer y bydwreagedd sydd eu hangen i ddiwallu anghenion menywod a theuluoedd yn y dyfodol. Mae staff mamolaeth yn cynnwys gweithwyr cymorth mamolaeth sy'n darparu cymysgedd sgiliau hanfodol o fewn y gweithlu. Mae Birthrate® Plus wedi bod yn gweithio ar y cyd ag arweinwyr gwasanaethau bydwreigiaeth i sicrhau bod yr adolygiad hwn yn llywio gwaith cynllunio'r gweithlu yn y dyfodol.

Ar hyn o bryd mae AaGIC yn datblygu cynllun gweithlu amenedigol cynhwysfawr, sy'n cwmpasu hyfforddiant, recriwtio a chadw gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a bydd yn helpu i sicrhau bod gan GIG Cymru y gweithlu mamolaeth a newyddenedigol cywir, nawr ac yn y dyfodol. Mae'r gweithlu amenedigol yn cynnwys bydwreagedd, gweithwyr cymorth mamolaeth, obstetregwyr, neonatolegwyr, anesthetyddion, nyrsys newyddenedigol, fferyllwyr a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi'r dasg i AaGIC sicrhau bod canfyddiadau'r adroddiad Birthrate® Plus a'r argymhellion cysylltiedig yn llywio'r gwaith hwn.

Gofal Sylfaenol

Mae AaGIC yn gyfrifol am sicrhau bod y gweithlu gofal sylfaenol ar gael mewn niferoedd digonol a bod gan y gweithlu ddigon o sgiliau i gyflawni amcanion y diwygiadau gofal sylfaenol.

I gyd-fynd â Chynllun Strategol y Gweithlu ar gyfer Gofal Sylfaenol, mae AaGIC hefyd wedi cynhyrchu cyfres o gynlluniau proffesiynol penodol ar gyfer y gweithlu gan gynnwys y Cynlluniau Strategol ar gyfer y Gweithlu Fferylliaeth a Deintyddol. Mae AaGIC wedi ymrwmo i gefnogi fferyllwyr cymunedol i hyfforddi fel rhagnodwyr annibynnol a darparu hyfforddiant technegwyr fferyllfa cyn-gofrestru drwy brentisiaethau modern i gyflogwyr fferylliaeth gymunedol.

Mae ein buddsoddiadau ar draws gofal sylfaenol a gofal cymunedol

hefyd yn cefnogi meddygon teulu a'u timau ymarfer i ddarparu Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol. Mae buddsoddi mewn Canolfannau Gofal Sylfaenol Brys a'r gwasanaeth 111 Pwyso 2 ar gyfer gwasanaeth Iechyd Meddwl yn ddwy enghraifft yn unig. Bydd y cyllid diweddar ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd yn cynyddu'r cymorth sydd ar gael i feddygon teulu drwy dimau adnoddau cymunedol. Mae ein model gofal sylfaenol ar gyfer Cymru yn cydnabod nad meddygon teulu ddylai fod y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer triniaeth bob amser ac mae'n defnyddio ystod o weithwyr iechyd proffesiynol eraill i sicrhau bod pobl yn cael y gofal iawn, yn y lle iawn ar yr adeg iawn.

8. Diweddariad ar sefyllfa ariannol byrddau iechyd yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys a ydynt ar y trywydd iawn i gyflawni eu dyletswydd statudol i adennill costau.

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol flaenorol, methodd pob un o'r byrddau iechyd lleol, ac eithrio Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, i gyflawni eu dyletswydd tair blynedd i adennill costau. Nodwyd y sefyllfa fanwl yn erbyn terfynau adnoddau refferiw yng nghyfrifon y cyrff hyn ond fe'i crynhoir yn y tabl isod.

Tanwariant/(Gor) wariant yn erbyn y dyraniad adnoddau referiw	2020-21	2021-22	2022-23	Dyletswydd tair blynedd
	£000	£000	£000	£000
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	245	249	(36,842)	(36,348)
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	490	289	389	1,168
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Ffôn	90	232	(26,789)	(26,467)
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	88	172	(24,481)	(24,221)
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	(24,910)	(25,000)	(59,044)	(108,954)
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys	143	80	(7,002)	(6,779)
Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe	(24,304)	(24,399)	1,838	(46,865)
Pob bwrdd iechyd lleol	(48,158)	(48,377)	(151,931)	(248,466)

Yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23 rhoddwyd cyllid ychwanegol sylweddol i fyrddau iechyd i gydnabod costau uchel eithriadol ynni yn ystod y flwyddyn honno a chostau parhaus Covid-19. Rhoddwyd y dyraniadau hyn ar sail untro. Er gwaethaf y gefnogaeth honno, rhoddodd pump o'r saith bwrdd wybod am ddiffygion ariannol blynyddol, gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn sicrhau arian dros ben. Gyda'i gilydd, cofnododd y Byrddau ddiffyg blynyddol o £152 miliwn.

Rhoddodd Llywodraeth Cymru gynnydd craidd o 1.5% i holl gyrff y GIG yn 2023-24, i gefnogi gwasanaethau rheng flaen yng nghyd-destun setliad y gyllideb. Yn ogystal, rydym wedi bod yn glir gyda'r Byrddau y byddai costau dyfarniad cyflog y GIG yn cael eu hariannu'n llawn, fel yn y blynyddoedd blaenorol.

Fel rhan o'r cylch cynllunio dilynol cyflwynodd y saith Bwrdd gynlluniau blynyddol i gyflawni diffyg gwerth cyfanswm o £648m. Ers cyflwyno'r cynlluniau hyn mae fy swyddogion, gyda chymorth y tîm Cyllid, Cynllunio a Chyflenwi yng Ngweithrediaeth y GIG, wedi bod yn gweithio gyda chyrrff i graffu ar y cynlluniau hynny.

Elfen allweddol o'r cynlluniau a gyflwynwyd oedd bod cyrrff y GIG yn bwriadu dod o hyd i gyfanswm o £221 miliwn o arbedion i gwrdd â'r diffygion a nodwyd. Byddai'r cyfanswm hwn yn cyfateb i lefel o arbedion sy'n fwy nag unrhyw arbedion a gyflawnwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Felly, mae gwaith wedi canolbwyntio ar gefnogi adnabod y targedau hynny sydd wedi'u cynllunio'n lleol.

Fel y cyhoeddwyd gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ar 17 Hydref, rydym wedi bod yn ystyried ein hymateb i effeithiau chwyddiant ar ein cyllideb eleni. Cafodd y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gynnydd o £425 miliwn i'w gyllideb refeniw fel rhan o'r ymarfer hwnnw. Drwy reolaeth ariannol ofalus, rydym wedi chwilio am gyfleoedd ac arbedion pellach o fewn y cyllidebau adrannol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a byddwn yn dyrannu arian ychwanegol i'r GIG i gefnogi'r pwysau chwyddiant y maent wedi'i wynebu eleni a hefyd i gydnabod yr her sylfaenol o ganlyniad i'r twf yn eu sylfaen gostau o ganlyniad i'r pandemig. Rwyf wedi bod yn glir y bydd angen cyflawni gwelliannau pellach o'r lefel o ddiffyg mewn cynlluniau a gyflwynwyd.

Yn olaf, o ystyried y diffyg dros dair blynedd a gofnodwyd gan y chwe bwrdd iechyd lleol y llynedd a'r her y maent yn ei hwynebu i gyflawni cydbwysedd ariannol o fewn y flwyddyn, nid oes yr un o'r Byrddau yn rhagweld y byddant yn cyflawni'r ddyletswydd statudol honno i adennill costau ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon.

Disgwylir i holl ymddiriedolaethau'r GIG fantoli'r cyfrifon yn 2023-24, yn ogystal â'r ddau awdurdod iechyd arbennig

9. Y camau sy'n cael eu cymryd er mwyn gwella cynllunio olyniaeth a denu ymgeiswyr amrywiol o ansawdd uchel ar gyfer penodiadau cyhoeddus uwch.

Mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen Penodiadau Cyhoeddus GIG Cymru wedi datblygu proffiliau rôl enghreifftiol a pheccynnau ymgeiswyr. Mae'r cyflwyniad newydd yn helpu i hyrwyddo'r GIG yng Nghymru yn broffesiynol ac yn amlinellu'r rôl yn glir, yn ogystal â'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen. Maent hefyd yn cydnabod pwysigrwydd profiad byw a bydd cydweithwyr yn nhîm cydraddoldeb canolog Llywodraeth Cymru yn cael eu cynghori ar hygyrchedd yr iaith a ddefnyddir.

Mae trafodaethau'n cael eu cynnal ynghylch amrywiaeth mewn Penodiadau Cyhoeddus ac yn ddiweddar cymeradwywyd cyllid ar gyfer 2023-24 a 2024-25 ar gynllun peilot newydd ar gyfer cysgodi swyddi a fydd yn sicrhau cydraddoldeb cyflog i bobl sy'n cysgodi swyddi. Ar hyn o bryd rydym yn datblygu tudalen Ymgyrchoedd i wella presenoldeb ar-lein a chodi ymwybyddiaeth gan sicrhau diddordeb a gweithgarwch ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i greu llwyfan i ddatblygu rhwydwaith i Dimau Partneriaeth rannu arferion gorau o ran Cydraddoldeb ac Amrywiaeth. Rydym wedi cynnal cyfres o sesiynau gyda Thimau Partneriaeth i ddarparu cyd-destun ac arweiniad gan sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo i Gadeiryddion ac Aelodau'r Bwrdd wrth ddatblygu amcanion amrywiaeth penodol a pherthnasol fel rhan o'u gwerthusiad perfformiad. Gyda chymorth Cadeiryddion a sefydliadau cydraddoldeb allweddol, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu rhaglen arweinyddiaeth lefel uchel i ddatblygu sgiliau pobl i eistedd ar Fyrddau, yn enwedig pobl anabl a phobl o gymunedau Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol sydd bron yn barod i wneud cais. Mae'r cyrsiau arweinyddiaeth lefel uchel yn darparu cyfleoedd mentora, arsylwi ar Fyrddau a chyfleoedd cysgodi. Aeth y Rhaglenni Hyfforddiant hyn yn fyw ym mis Gorffennaf 2023 tan ddiwedd mis Mawrth 2024 ac fe'u diwygiwyd yn dilyn adborth a gafwyd gan Flwyddyn gyntaf y rhaglen Hyfforddi. Mae'r hyfforddiant hwn wedi'i oedi gan y bydd y partneriaid cyflenwi presennol yn rhoi'r gorau i weithredu fel busnes ar 20 Hydref 2023. Ar hyn o bryd rydym wrthi'n dod o hyd i gyflenwyr amgen i ddarparu'r hyfforddiant. Rydym yn adolygu'r broses recriwtio sy'n digwydd ar hyn o bryd i gynyddu cyfranogiad gan ymgeiswyr o gefndiroedd Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol ac ymgeiswyr anabl.

Mae'r holl hysbysebion yn cael eu hanfon at rwydweithiau a grwpiau cydraddoldeb.

10. Gwybodaeth am waith sy'n cael ei gynnal er mwyn deall effaith penderfynyddion masnachol ar iechyd yng Nghymru, a'r ysgogiadau sydd ar gael i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â/lliniaru eu heffeithiau niweidiol, gan gyfeirio'n benodol at gamblo a bwyd wedi'i brosesu'n helaeth.

Gall gweithgarwch cwmnïau mawr chwarae rhan yn ein hiechyd. Mae rhai o'r gweithgareddau hyn yn gallu bod yn gadarnhaol, er enghraifft trwy gynnig cyflogaeth neu drwy ddarparu gwasanaethau neu gynhyrchion sy'n hanfodol ar gyfer iechyd a llesiant, ond mae rhai gweithgareddau yn gallu tanseilio ein hiechyd.

Cyfeiriwyd at y strategaethau a'r dulliau a ddefnyddir gan y sector preifat i hyrwyddo cynhyrchion ac arferion sy'n dylanwadu ar ein dewisiadau ac sy'n niweidiol i'n hiechyd fel penderfynyddion iechyd masnachol.

Mae'r marchnadoedd ar gyfer rhai cynhyrchion fel tybaco, alcohol, a bwyd a diod nad yw'n iach yn cael eu dominyddu gan gwmnïau mawr sydd â chyllidebau dosbarthu a marchnata enfawr ac sy'n rhoi mwy o bwyslais ar wneud elw na phryderu am iechyd y cyhoedd.

Gyda mwy o sylw yn cael ei roi i'r penderfyniadau masnachol sy'n cymell clefydau anhrosoglwyddadwy fel canser, diabetes, cyflyrau anadlol a chyflyrau cylchredol a all arwain at farwolaethau cyn pryd a chynyddu anghydraddoldebau iechyd; po fwyaf yr ydym yn ei ddeall am sut mae'r gweithgareddau hyn yn dylanwadu ar yr amgylcheddau ffisegol a chymdeithasol y mae pobl yn byw, yn gweithio, yn chwarae, ac yn dysgu ynddynt, ac yn eu caru – boed yn gadarnhaol neu'n negyddol, y gorau y byddwn yn gallu rhagweld, ac ymyrryd os oes angen hynny, er mwyn osgoi canlyniadau niweidiol i iechyd.

Tybaco

Mae'r diwydiant tybaco wedi bod yn gyfrifol am fwy na 100 miliwn o farwolaethau cyn pryd ledled y byd. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain wedi digwydd ers i'r byd gael gwybod bod tybaco yn angheuol tua 60 mlynedd yn ôl. Byddai rhywun yn meddwl bod y darganfyddiad hwn wedi arwain at gamau i gau'r busnes neu ei arallgyfeirio i ffwrdd o dybaco, ond mae ei referniw yn fwy nag erioed, ac mae'n parhau i fod yn un o'r sectorau mwyaf proffidiol i fuddsoddwyr.

Mae Cymru wedi bod ar flaen y gad yn aml ym maes rheoleiddio tybaco. Er bod gwaith rheoleiddio'r llywodraeth yn y maes hwn yn cael effaith sylweddol, mae'r diwydiant tybaco yn parhau i geisio amddiffyn ei farchnad trwy ddatblygu cynhyrchion newydd sy'n cynnwys tybaco a nicotin.

Mae tactegau'r diwydiant i geisio creu cenhedlaeth newydd o bobl sy'n gaeth i nicotin yn fwyaf amlwg ym maes e-sigaréts. Er bod sawl maes polisi yn ymwneud â thybaco ac e-sigaréts yn feysydd a gedwir yn ôl, mae Llywodraeth Cymru wedi dadlau o blaid rheoleiddio cryfach ar gyfer y diwydiant tybaco a fepio, yn arbennig i atal targedu plant a phobl ifanc wrth werthu cynnyrch fepio. Felly rydym yn gweithio'n agos gyda llywodraethau eraill y DU ac yn ymgynghori ar y cyd ar gynigion i fynd i'r afael â smygu a fepio ymhlith pobl ifanc, ac yn edrych ar ffyrdd o leihau atyniad, fforddiadwyedd ac argaeledd fêps i'n plant. Rydym yn credu y bydd y mesurau hyn yn gryfach ac yn cael mwy o effaith ar sail pedair gwlad.

Gamblo

Yn aml, mae'r nifer uchel o bobl sy'n defnyddio cynhyrchion fel tybaco, alcohol, bwyd a diod nad yw'n iach ac yn gamblo yn seiliedig i raddau llai ar 'ddewisiadau' unigol ac i raddau mwy ar y strategaethau a ddefnyddir gan gwmnïau mawr sy'n cynhyrchu, yn marchnata, yn dosbarthu neu'n gwerthu'r cynhyrchion hyn.

Mae technegau'n bodoli y gall cwmnïau mawr eu defnyddio i gymell gwerthiannau a defnydd trwy dargedu poblogaethau penodol. Hefyd, gall cwmnïau dargedu lle maen nhw'n gwerthu eu cynhyrchion er mwyn cyrraedd cynifer o bobl â phosibl a fydd yn eu prynu. O ganlyniad, gwelwyd dwysedd cynyddol o safleoedd gamblo, bwyd brys ac alcohol mewn ardaloedd mwy difreintiedig.

Mae gamblo niweidiol yn batrwm o gamblo gormodol lle nad oes gan yr unigolyn fawr ddim rheolaeth dros yr ymddygiad ailadroddus, ac er bod y canlyniadau negyddol yn helaeth ac yn cael effaith sylweddol, ni ellir atal yr ymddygiad ac yn aml gall gynyddu. Yn aml, gall y niwed o gamblo gael ei ddosbarthu'n anghyfartal, gyda'r rhai sydd fwyaf tebygol o brofi niwed eisoes o dan anfantais yn eu cymunedau, fel pobl o gefndiroedd difreintiedig yn economaidd-gymdeithasol, a'r rhai sy'n dioddef problemau iechyd meddwl.

Ym mis Ebrill 2023, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ganlyniad ei hadolygiad o Ddeddf Gamblo 2005 a Phapur Gwyn yn nodi manylion y newidiadau y mae'n bwriadu eu gwneud i ddiwygio deddfwriaeth gamblo. Cynnig allweddol yw sefydlu ardoll statudol ar weithredwyr gamblo ac fe lansiodd ymgynghoriad gan Lywodraeth y DU ar 17 Hydref 2023 gyda'r bwriad o ddarparu mecanwaith ariannu annibynnol i gefnogi ymchwil ar gyfer gamblo, atal gamblo a thrin caethiwed i gamblo ym Mhrydain.

Mae swyddogion yn gweithio gyda swyddogion yn Llywodraeth y DU ar fanylion y cynigion a sut y byddant yn effeithio ar Gymru, gan ganolbwyntio'n benodol ar leihau risg ac atal niwed a datblygu ardoll y diwydiant gamblo. Rydym hefyd yn gweithio gyda swyddogion yr Adran Addysg ac Iechyd Cyhoeddus Cymru ar sut y gellir cynnwys negeseuon ar bob pwnch iechyd (gan gynnwys gamblo) yn y cwricwlwm newydd i Gymru.

Bwyd

Mae'r cynnydd yn y nifer o bobl sydd dros bwysau ac yn ordew yn broblem fyd-eang. Yng Nghymru, mae dros 60% o'r boblogaeth a bron i un o bob tri phlentyn sy'n dechrau yn yr ysgol gynradd dros bwysau neu'n ordew.

Mae'r amgylchedd bwyd yn llywio ein dewisiadau bob dydd, ac mae argaeledd, dymunoldeb diwylliannol a phrisiau cynhyrchion yn gallu llywio'r hyn rydym yn ei fwyta. Mae dylanwad y diwydiant bwyd yn cael ei amlygu trwy bedwar prif ddull:

- Marchnata, sy'n cynyddu dymunoldeb a derbynioldeb nwyddau nad yw'n iach.
- Lobïo, sy'n gallu atal rhwystrau polisi fel deunydd pacio plaen ac isafswm oedran ar gyfer yfed alcohol.
- Strategaethau cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol, sy'n gallu dargyfeirio sylw a gwyngalchu enw da sydd wedi'i faeddu;
- Cadwyni cyflenwi helaeth, sy'n ehangu dylanwad cwmnïau ledled y byd.

Er bod yr astudiaethau sy'n cysylltu bwydydd sydd wedi'u prosesu'n helaeth ac effeithiau niweidiol ar iechyd yn peri pryder, nid yw'r dystiolaeth yn glir. Mae llawer o'r bwydydd hyn yn ddwys o ran ynni ac yn uchel mewn halen, siwgr, a/neu fraster dirlawn – mae gennym eisoes dystiolaeth dda o'r niwed a achosir o ganlyniad i fwyta gormod o'r rhain, ac mae ein strategaeth Pwysau Iach Cymru Iach wedi'i chynllunio i gefnogi pobl Cymru i fwyta llai'r cynhyrchion hyn. Mae angen ymchwil bellach i ddangos a oes unrhyw effaith andwyol ar iechyd o'r broses brosesu ei hun (mae gwybodaeth am fwydydd sydd wedi'u prosesu'n helaeth isod).

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried amryw o ddulliau yn yr amgylchedd manwerthu i'w gwneud yn haws i ddefnyddwyr wneud dewisiadau iachach. Ar hyn o bryd mae swyddogion yn llunio deddfwriaeth newydd ynghylch hyrwyddo a lleoli cynhyrchion sy'n uchel mewn braster, halen, a siwgr mewn lleoliadau manwerthu ar-lein ac wyneb yn wyneb. Bydd hyn yn golygu na fydd manwerthwyr yn gallu annog pobl i brynu cynhyrchion uchel mewn braster, halen a siwgr trwy eu harddangos mewn lleoliadau amlwg fel ym mlaen y siop neu ar y dudalen gartref y wefan ac ni fyddant ychwaith yn gallu eu cynnwys mewn hyrwyddiadau prisiau fel cynigion seiliedig ar gyfaint.

Bwydydd sydd wedi'u prosesu'n helaeth

Er bod yr astudiaethau sy'n cysylltu bwydydd sydd wedi'u prosesu'n helaeth ac effeithiau niweidiol ar iechyd yn peri pryder, nid yw'r dystiolaeth yn glir. Mae llawer o'r bwydydd hyn yn ddwys o ran ynni ac yn uchel mewn halen, siwgr, a/neu fraster dirlawn – mae gennym eisoes dystiolaeth dda o'r niwed a achosir o ganlyniad i fwyta gormod o'r rhain, a bydd ein strategaeth Pwysau Iach Cymru Iach yn ein cefnogi i fwyta llai ohonynt. Mae angen ymchwil bellach i ddangos a oes unrhyw effaith andwyol ar iechyd o'r broses brosesu ei hun.

Mae bwydydd sydd wedi'u prosesu'n helaeth hefyd yn cynnwys bwydydd rydyn ni'n eu hannog fel rhan o ddeiet iach fel bara cyflawn, grawnfwydydd brechwast grawn cyflawn, ffa pob, sawsiau pasta tomato ac iogwrt ffrwythau - gall y rhain fod yn ffynhonnell gyfleus a fforddiadwy o gael rhai maethynnau pwysig.

Y cefndir

Mae Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill y llywodraeth yn y DU yn cael eu cynghori ar faeth a materion iechyd cysylltiedig gan y Pwyllgor Cynghori Gwyddonol ar Faeth (SACN). Mewn datganiad a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2023, nododd SACN fod y cysylltiadau a arsylwyd rhwng bwyta mwy o fwydydd sydd wedi'u prosesu'n helaeth a chanlyniadau iechyd niweidiol yn peri pryder www.gov.uk/government/publications/sacn-statement-on-processed-foods-and-health/sacn-statement-on-processed-foods-and-health-summary-report. Fodd bynnag, mae'r cyfyngiadau yn system ddsbarthu NOVA, y potensial ar gyfer dryswch, a'r posibilrwydd bod y cysylltiadau niweidiol a welwyd gyda bwydydd sydd wedi'u prosesu'n helaeth yn cael eu hesbonio gan berthnasoedd maethol sefydledig rhwng ffactorau maeth a chanlyniadau iechyd yn golygu bod angen trin y dystiolaeth hyd yn hyn yn ofalus. Mae SACN wedi argymhell bod angen rhagor o ymchwil mewn nifer o feysydd.

Mae mwy a mwy o drafod a dadlau yn y cyfryngau ynglŷn â goblygiadau bwydydd sydd wedi'u prosesu'n helaeth ar iechyd. Ar hyn o bryd nid oes diffiniad cytunedig na chyson ar gyfer bwydydd sydd wedi'u prosesu'n helaeth ac ni chyfeirir atynt yn argymhellion dietegol Llywodraeth y DU.

